Cofnodion cyfarfod 14eg o Fawrth 2023 a gynhaliwyd am 7 yn yr hwyr yn y Shed, Y Felinheli.		
PRESENNOL		
Daniel Llywelyn Williams	Iwan Huws	
Meleri Jones	Emyr Gareth	
Eleri Wyn Thomas	Dafydd Huws	
Eifion Williams	Cynog Prys	
Cynghorydd Sasha Williams		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Iwan Huws a chroesawodd Mari Tudur Uwch Hwylusydd Tai Gwledig ag Swyddog Cynllunio Adra. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Nel Huws, Llŷr Evans, Elenid Glyn. Croesawodd y Cadeirydd Cynghorydd Sasha Williams hefyd i'r cyfarfod.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Cafwyd cyflwyniad gan Mari Tudur Hwylusydd Tai Gwledig. Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r gwasanaeth. Mae Hwyluswyr Tai Gwledig yn annibynnol ac yn edrych beth yw anghenion tai mewn ardaloedd gwledig. Mae Cymdeithas Dai Adra wedi comisiynu'r gwasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig i gynnal ymchwil er mwyn darganfod beth yw wir sefyllfa dai yn y Felinheli. Rhan o'r ymchwil yma fydd sefydlu a chynnal arolwg o fewn y Felinheli. Bydd hyn yn gyfle i gynnig barn am unrhyw ddatblygid sydd yn bosib. Bydd diwrnod agored hefyd yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa rhwng 4.30 a 6.30 ar y 18fed o Ebril 2023. Bydd llythyr yn cael ei anfon at bawb o fewn y gymuned. Mae cysylltiad wedi ei wneud yn barod a'r Ysgol Gynradd a bydd llythyr yn mynd at y feddygfa hefyd. Un o'r datblygiadau ar y gweill yw codi 23 uned ar dir ger y wern gogyfer eu rhentu. Byddai'r tai yn cael eu cynnig i bobl leol. Cafwyd ychydig o drafodaeth ynglŷn â beth yw diffiniad bobl leol ac yn y blaen. Cafwyd addewid byddai Mari yn anfon ymlaen wybodaeth ynglŷn ag Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd ymlaen at y Cyngor Cymuned a hefyd beth yw diffiniad lleol. Anfonwyd y canlynol wedi'r cyfarfod: "*Mae Felinheli wedi ei adnabod yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel Pentref Arfordirol. O ran cyswllt lleol mewn perthynas â thai fforddiadwy, mae'r cynllun yn diffinio hyn fel "pobl mewn angen tŷ fforddiadwy sydd wedi byw o fewn y pentref neu yn yr ardal wledig o gwmpas am 5 mlynedd neu fwy yn olynol. Un ai yn union cyn cyflwyno cais neu yn y gorffennol".*	**CLERC**

	Anfonwyd hefyd gopi o Polisi gosod tai cyffredinol Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth gydag Adra, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru.	
1.3	Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd Sasha Williams ar gyflwyno clybiau ieuenctid yn yr ardal. Dywedodd bod dau glwb ieuenctid wedi ei gyflwyno ym Methel a Deiniolen yn ddiweddar. Cafwyd ychydig o arian i'w gynnal drwy PACT - fynhonell ariannu prosiectau gan Heddlu Gogledd Cymru. Cyn bod y clybiau wedi eu cyflwyno roedd gwaith wedi ei wneud ar gyfer cael gwybod os oedd yr angen yn bodoli. Cafwyd ychydig o Pop-ups mewn mannau i ymgynghori a phobl ifanc o flwyddyn 6 i fyny. Wedi gweld bod y gofyn mynd ati wedyn i gael lleoliad a chael cytundeb wedyn rhwng y Cyngor Cymuned a Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Cyngor Cymuned sydd yn ariannu'r clybiau. Cost flynyddol cynnal clwb yw oddeutu £5,500. Mae hyn yn cynnwys rhentu lleoliad, arweinwyr (lefel 2), hyfforddi'r arweinwyr a chyflogi arweinwyr sydd o gwmpas £20 - £30 y sesiwn i bob arweinydd, bydd angen 2 arweinydd i bob sesiwn. Cost i bobl ifanc sydd yn mynychu yw £1 y sesiwn. Mae'r arian yma yn mynd tuag at achlysuron arbennig. Cafwyd ychydig o drafodaeth ynglŷn â chynnal clwb, sut i'w ariannu er nad oedd wedi ei gyflwyno yn y gyllideb ar gyfer 2023-2024 ac yn y blaen. Hefyd roedd ychydig o drafodaeth ynglŷn â sut i wneud ymchwil gogyfer gael tystiolaeth bod angen clwb o fewn y pentref. Cafwyd y wybodaeth bellach ar y mater hwn wedi'r Cyfarfod: Mae Arweinydd Tîm Cymorth Ieuenctid Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wneud Pop-ups a hel barn pobl leol y pentre' ar be faent eisiau. Mae cost o gynnal y sesiynau yma ar Gyngor Gwynedd. Bydd cyfle efallai yng ngŵyl y Felin i ymgysylltu a'r ieuenctid i weld beth yw eu teimladau.	
1.4	Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – cyflwynwyd fel gwybodaeth yn unig.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Chwefror 2023 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd.	**CLERC**
3.2	Cafwyd gwybodaeth bod Clwb Peldroed merched eisiau gwneud cais am gymorth ariannol gan y Cyngor Cymuned, darllenwyd llythyr oddi wrthynt yn rhoi cefndir bodolaeth	

	am y clwb ond nid oedd cais neilltuol ynghlwm a'r llythyr. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Eifion Williams i ofyn iddynt wneud cais gyda manylion beth oeddynt angen.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Chwefror 2023.	**CLERC**
	Wi-Fi - dim ymateb wedi bod oddi wrth Fenter Môn. Y Clerc a'r Cynghorydd Iwan Huws am gysylltu eto.	
4.3	Materion Y Fynwent: Gweler cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau yn eitem Asedau.	
4.4	Bwa yn wal gynnal Ffordd Gaernarfon – cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud nad oedd angen gwaith brys ar y wal a bod y sefyllfa yn cael ei fonitro.	**CLERC ASEDAU**
4.5	Llwybr 17 – dim mwy o wybodaeth wedi dod oddi wrth Gyngor Gwynedd yn Dilyn cyfarfod safle. Llwybr Cerrig yr Afon - dal i ddisgwyl pris am atgyweirio'r ffens.	**CLERC**
4.6	Cyfrifiad diffibrilwyr - cafwyd gwybodaeth bod ddim byd cadarnhaol yn ei le gogyfer cynnal a chadw'r offer. Credir bod Clwb Peldroed yn gwneud archwiliadau ar yr offer sydd yn y clwb a disgwylir bod yr Ysgol yn gwneud ar gyfer offer yr Ysgol. Y Cynghorydd Iwan Huws am wneud ymholiad a'r Brif Athrawes am hyn. Clwb Hwylio yn edrych ar ôl un y Clwb ac mae Cyngor Cymuned yn cynnal a chadw'r un yn y neuadd Goffa ac ar wal y Toiledau.	**CLERC ASEDAU**
4.7	Arwyddion ffyrdd - cadarnhad wedi dod oedi wrth Gyngor Gwynedd bod colofn y golau stryd gyferbyn a chyffordd sy'n arwain i'r toiledau yn dderbyniol gogyfer codi arwydd i'r toiledau. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i symud ymlaen a'r gwaith.	**EW**
4.8	Broadband y Neuadd - fe wnaeth y Cynghorydd Meleri Jones ymholiadau a BT ond yn anffodus oherwydd bod enw'r cyn Clerc ar y cyfrif nid oedd yn gallu symud ymlaen a'r mater. Cymerodd y Clerc Presennol yr awenau ac fe fethwyd a newid enw'r person cyfrifol ar y cyfrif. Mae còd post y neuadd hefyd yn anghywir ar y cyfrif ac mae hyn hefyd yn cymhlethu'r mater. Yn y diwedd rydym wedi cael cytundeb gwell gydag BT ond bydd rhaid derbyn rhai o'r diffygion ar y cyfrif er mwyn cael y cytundeb gwell a'r un gwasanaeth.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
7.0	**ASEDAU**	
	Yn dilyn cyfarfod ar safle'r fynwent ar y ail o Fawrth 2023 trafodwyd y materion canlynol: Lleoliad Mainc newydd - nid oedd unrhyw wrthwynebiad gosod mainc newydd ar y tamed tir yng nghornel y fynwent lle mae mainc wedi ei lleoli yn barod. Roedd angen	

i'r fainc fod o'r un gwneuthuriad a lliw. Y teulu i fod yn gyfrifol am gynnal a chadw'r fainc ond bydd y fainc o eiddo'r Cyngor oherwydd atebolrwydd yr yswiriant. Y wybodaeth yma i'w gyflwyno fel argymell i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Rhagwelwyd bod lle yn bodoli i ddwy fainc arall ar hyn o bryd yn y fynwent, un yn y lle'r bin compost a'r llall ger y lleoliad lle mae'r llwybrau'r fynwent yn croesi. Mae angen gwaith chynnal a chadw ar y ar un fainc yng ngwaelod y llwybr. Y wybodaeth yma i'w gyflwyno fel argymell i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Rhagwelir bod lle am oddeutu dwy flynedd cyn fydd rhaid ystyried agor ochr dde'r fynwent. Mae lle i 13 o gladdedigaethau llwch ar ddechrau'r fynwent, rhagwelir bydd lle i gladdu llwch hefyd ar hyd ochr y wal sydd yn gwahanu mynwent yr eglwys a'r fynwent gymunedol. Bydd angen archwilio dyfnder y tir yn y rhan yma. Y wybodaeth yma i'w roi gerbron y Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Oherwydd amcangyfrif mai dwy flynedd sydd gyn bod angen edrych i ddefnyddio y rhan arall o'r fynwent argymhellir i'r Cyngor nad yw ffens y fynwent yn cael eu hatgyweirio oherwydd nid oedd yn gwneud synnwyr ariannol i wneud hyn gan mai dim ond £6 fyddai incwm pori am y ddwy flynedd a byddai atgyweirio'r ffens yn costio canoed. Byddai'r tir ar gael i'r bugail yn rhad ag am ddim am y cyfnod ond byddai cynnal a chadw'r ffens yn fater iddo fo am y cyfnod hefyd. Y Clerc i hysbysu'r bugail.

Trafodwyd ffioedd y fynwent. Nid ydynt wedi eu newid ers 2019. Penderfynwyd rhoi'r canlynol fel argymhelliad i'r Cyngor.

Prisiau 2019	**Prisiau 2023**
Plot a Chladdu Trigolion Lleol - £250 Eraill £500	Plot a Chladdu Trigolion Lleol - £300 Eraill £550
Ail Agor Bedd Trigolion Lleol - £100 Eraill - £200	Ail Agor Bedd Trigolion Lleol - £150 Ebrill - £250
Plot amlosgi a Chladdu Llwch Trigolion Lleol - £450 Eraill - £400	Plot amlosgi a Chladdu Llwch Trigolion Lleol - £200 Eraill - £450
Ail agor plot llwch Trigolion Lleol - £55 Eraill - £150	Ail agor plot llwch Trigolion Lleol - £100 Eraill - £200
Hawl i osod Carreg	Hawl i osod Carreg

	Trigolion Lleol - £100 Eraill - £150	Trigolion Lleol - £150 Eraill - £150	
	Ffi ymchwil - £30	Ffi Ymchwil - £75	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**		
8.1	Gweler 4.5		**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**		
9.1	Bydd cyfarfod a Meical Hughes nos Fawrth nesaf gogyfer gweld beth sydd angen ei wneud ynglŷn â'r piler ochr dde. Mae angen gwneud gwaith cynnal ar y llawr ochr dde ger drws tân ochr Bangor. Gobeithir dechrau ar y gwaith ar y 21ain o Fawrth 2023. Goleuadau newydd i'r neuadd – y trydanwr yn edrych am bris i'r gwaith. Mae angen edrych beth sydd angen i wneud i'r islawr i edrych oes modd ei ddefnyddio - efallai ar gyfer clwb ieuenctid. Efallai bydd angen ail blastro tu allan rhan o'r adeilad gogyfer i'r adeilad anadlau ac atal tamp rwydd. Y Cynghorydd Dan Williams am wneud ymholiadau a'r pensaer. Mae angen hefyd ail leoli'r toiledau ac yn y blaen.		**DW** **MJ**
9.2	Cloc – cyfarfod heb ei drefnu gyda'r pensaer hyd yma.		
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**		
10.1	Angen cwblhau'r asesiadau risg cau'r giatiau.		**DW**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:58		
Llofnod: Cr Evan Hughes.			**Dyddiad:** **11/4/2023**